# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Mehefin 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 9

## Beth sydd rhwng y cloriau y mis yma?



Mae hogie'r tractorau wrthi eto! (t. 11)



Beth yw astroffotograffeg? (t. 9)



Meddwl am werth dŵr  (t. 7)




Cyfarfod â'r un sydd y tu ôl i'r  fenter a gafodd ei galw'n 'drysor cenedlaethol' gan yr Athro Paul Mealor (t. 12) [Llun: Mandy Jones, trwy garedigrwydd Ceidiog PR]



Gwobr arbennig i Catherine (t. 14)

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais o'r* eglwys neu o Tŷ Ceffyl Bach, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

***Diolch***




Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb wnaeth ein cefnogi ar ddiwrnod yr agoriad, roeddwn ni wedi ein syfrdanu! Rydem ni ar ein hail wythnos rŵan ac wedi cael llif cyson o ymwelwyr, ax rydym ni wrth ein bodd yn eich gweld yn mwynhau Tŷ Ceffyl Bach. Cofiwch, os oes gennych chi geffyl ai peidio, gall Graham wastad wneud anrheg arbennig o'ch syniadau chi.

***Diolch yn fawr,***
***Graham ac Angie***

***Llongyfarchiadau …***

… i John, ŵyr Wendy Grey Lloyd fu yng Ngerddi Palas Buckingham yn ddiweddar i dderbyn Gwobr Aur Dug Caeredin a gyflwynwyd gan Edward Dug Caeredin. Er mwyn cael hwn rhaid i ymgeiswyr gyflawni 12 mis o waith gwirfoddol, taith antur 4 niwrnod a chwblhau heriau preswyl. John ydi'r myfyriwr cyntaf o *Myddleton College* i gyrraedd y lefel hon – da iawn John.

… i Danny a Vicky Owen ar enedigaeth mab bach, Robin, brawd i Ruby.

… i John a Shân Ashton ar ddod yn daid a nain eto – ganwyd Lily Rose i Jac a Sarah, chwaer fach i George. Mae'r teulu'n byw yn Sale, Manceinion.

***Dymuniadau da*** i Elinor Griffith, Hen Gapel ac i Osian Jones, Maes Tyrnog fydd yn dathlu eu pen blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

***Cydymdeimlwn*** â Jenny Salter, Stuart a'r teulu, Nythfa yn eu profedigaeth o golli Bryan, fu'n bostfeistr hwyliog ac yn cyd-redeg siop y pentre yn llwyddiannus iawn am flynyddoedd lawer.

***Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd***

Llongyfarchiadau i Leusa Jên Williams, Parc Tŷ'n Llan ar ennill y drydedd wobr mewn llefaru unigol, Bl. 3 a 4.

Hefyd i Penri Williams, Maes Tyrnog ar ennill y drydedd wobr am ei lun wedi addasu, Bl. 6 ac iau.

THREE CASTLES TRIAL 2024

Bydd y ceir sy'n cymryd rhan yn Rali'r Tri Chastell yn mynd trwy Landyrnog fore dydd Gwener, 7 Mehefin o 10 o'r gloch ymlaen. Byddan nhw'n aros am baned ym Mhentre Mawr, ac wedyn i Neuadd Mostyn, Neuadd Bodrhyddan, Plas-yn-Cefn ac am ginio i Westy Castell Rhuthun.

## Bore coffi

Llan Llanast — SHELTER CYMRU

**Bore Sadwrn, 22 Mehefin**

**10–11.15am yn Neuadd y Pentre**

*Byddem yn falch iawn o gael rhoddion tuag at y stondin cynnyrch cartre*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 1af | Parti pen blwydd, 11am–1pm |
| Sul | 2il | Parti bwmp, 2–5pm |
| Llun | 3ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 5ed | Pilates 7–8pm |
| Iau | 6ed | Pwyllgor y Sioe Flodau, 7–8pm |
| Sad | 8fed | Grŵp crefftau, 10am–4pm<br>Parti pen blwydd 10.30am–1pm |
| Sul | 9fed | Llan Llanast 3.30–6pm |
| Llun | 10fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 12fed | Pilates 7–8pm |
| Sadwrn | 15fed | Parti pen blwydd, 10am–2pm |
| Mercher | 19eg | Pilates 7–8pm |
| Sad | 22ain | Bore coffi: Llan Llanast a Shelter Cymru, 10am |
| Llun | 24ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 26ain | Pilates 7–8pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 3ydd | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 4ydd | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | 5ed | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | 10fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Llun | 17eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 18fed | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Iau | 20fed | Gweithdy crefftau, 7–9pm |
| Sad | 22ain | Gweithdy crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 24ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Grŵp cwiltio, 7pm |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

## Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 9fed | 11.15am<br>3.30 pm | Cymun Bendigaid<br>Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 16eg | 11.15am | Boreol Weddi |
| 23ain | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 30ain | 10.30am | Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Trefnant |

## Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 9.45 | Gwasanaeth teulu |
| 9fed | 11.00 | Parch. Megan Williams |
| 16eg | 9.45 | Parch. Andras Iago (cymun) |
| 23ain | 9.45 | Parch. Huw Dylan Jones |
| 30ain | 11.00 | Parch. Christopher Prew |

***Llongyfarchiadau** i Gwenan, Pen y Bryn oedd yn aelod o Gôr Ifor Bach, Caerdydd enillodd cystadleuaeth Côr Cymru 2024 S4C*

# Sefydliad y Merched Llandyrnog a Llangwyfan

Daeth tri ymwelydd newydd i gyfarfod mis Mai i weld os oedden nhw'n hoffi'r grŵp – gobeithio eu bod nhw, oherwydd dyma'r presenoldeb uchaf hyd yn hyn! Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r aelodau wedi bod am ginio ac ymweld â Chadeirlan Llanelwy, yn ogystal â thaith i ddigwyddiad Sefydliad y Merched yng Nghorwen i wrando ar sgwrs gan gystadleuydd o'r sioe grefft deledu the *Great British Sewing Bee* (ar ôl cael cinio wrth gwrs!).

Y siaradwraig ar 7 Mai oedd Rhian Pierce o'r *RSPB* fu'n sgwrsio am warchod y gylfinirod ar Fynydd Hiraethog. Roedd hi'n ddiddorol dros ben. Dysgom ni mai dim ond pedair sir yng Nghymru erbyn hyn sydd â gylfinirod magu, a bod yr adar yn byw hyd at 30 mlynedd ac yn dod yn ôl i'r un ardal i nythu bob blwyddyn. Mae nifer yr adar bach sy'n goroesi wedi lleihau'n aruthrol oherwydd sawl ffactor, e.e. llai o dir pori ar yr ucheldiroedd, cadwyni o goed conifferau, ucheldiroedd sychach a ffermio dwysach. Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ers 4 blynedd gyda chymorth ffermwyr lleol ardal y Brenig, ac mae'r boblogaeth yn cynyddu'n raddol. Dydi'r gylfinirod a welwn ni y dyddiau hyn ddim yn adar brodorol – y rhai oedd wedi ysbrydoli beirdd Cymru yn y gorffennol. I ganfod mwy ewch i wefan www.curlewlife.org

Mae'r linc hwn yn un diddorol hefyd: https://www.curlewaction.org/y-gylfinir-and-other-welsh-names-for-curlew/



# Rysáit

MARINÂD AR GYFER CYW IÂR
½ cwpan olew olewydd
2 llwy fwrdd siwgr brown meddal
3 llwy fwrdd saws soi
1½ llwy de croen lemwn
3 llwy fwrdd sudd lemwn
1 llwy fwrdd persli ffres wedi'i falu
1 llwy fwrdd teim ffres wedi'i falu
1 llwy de halen
½ llwy de pupur du
2 llwy de garlleg (2 clof) wedi'u malu
6 clun cyw iâr (gyda chroen)
Halen Môn

Cymysgwch y cynhwysion canlynol mewn powlen fawr – olew olewydd, siwgr brown, saws soi, croen a sudd lemwn, garlleg, perlysiau, pupur a halen.
Ychwanegwch y darnau cyw iar a'u cymysgu'n dda hefo'r marinâd.
Rhowch y bowlen yn yr oergell am ychydig o oriau neu dros nos.
Wedyn tynnwch y cyw iâr allan a'i osod mewn tun rhostio wedi'i leinio gyda ffoil.
Rhowch beth o'r marinâd dros y cyw iâr a hefyd ychydig o Halen Môn drosto.
Cynheswch y popty i 200 °C Ffan a choginiwch am 35–40 munud.
Mae'n flasus wedi'i weini hefo tatws newydd a llysiau gwyrdd megis brocoli *tenderstem*, gyda sgeintiad o bersli ffres drostynt.

*(Veronica Roberts)*

# Gild Trefoil

Mwynhawyd sgwrs gan Alan Tiltman oedd yn dwyn i gof atgofion radio bore oes. Clywsom ni leisiau a thonau cyflwyno roeddem ni gyd yn eu hadnabod o'r amser a fu. Daeth y cyfarfod i ben gyda the a bisgedi. Y siaradwr enillodd y raffl, a mis nesaf byddwn yn ymweld â gerddi Plas Coch

*Ruth Griffith*



# Hanesion Hazel

Erbyn mis Mehefin fel arfer, mae cyfnod hau'r hadau drosodd, ond rydym ni wedi cael gwanwyn mor wlyb ac oer fel bod nifer o lysiau a phlanhigion heb eu plannu tu allan eto. Mae fy asparagws, a blannwyd adeg y 'clo mawr' yn doreithiog erbyn hyn, a'r pigau'n saethu allan bob bore! Mae'r asparagws yn barod pan fydd digonedd o wyau gan yr ieir a dwi'n gwneud sawl *quiche* asparagws, a'u rhoi yn y rhewgell i'w bwyta'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Erbyn canol Mehefin, mae'r tymor drosodd, ac yna mae'n well gadael y planhigion yn llonydd i gadw eu hegni ar gyfer y flwyddyn nesaf. Maen nhw'n tyfu'n glwstwr mawr rhedynog ac ar ôl cawod drom o law, mae'r dŵr yn casglu ar y dail ac yn eich gwlychu chi! Maen nhw'n cymryd tipyn o le yn yr ardd lysiau, yn cysgu'r rhan fwyaf o'r flwyddyn, ond am 8 wythnos fer, maen nhw'n cynhyrchu pigau tyner â blas menyn melys ac awgrym bach o flas chwerw, priddlyd.

Dydi'r llysieuyn urddasol, aromatig hwn ddim at dast pawb ond fedrwch chi ddim curo'r rhai sydd wedi eu tyfu gartref a'u casglu'n ffres. Mae asparagws yn ffynhonnell dda o ffibr ddeietegol, yn helpu'r treuliad drwy fwydo bacteria pwysig y coluddyn, ac mae'n ffynhonnell dda o Fitamin A. Ond ar y llaw arall, mae'n gallu achosi *'pi-pi drewllyd'* a elwir yn *pi-pi asparagws*! Mae'r oglau diniwed yma'n cael ei achosi wrth i asid asparagwsig ddadelfennu. Ta waeth, dydi pawb ddim yn dioddef o'r sgileffeithiau yma. Cyfansoddyn sy'n cynnwys swlffwr ydi asid asparagwsig, a dim ond mewn asparagws mae o i'w gael. Mae rhai pobl yn sylwi ar yr arogl cyn lleied a chwarter awr ar ôl ei fwyta, ond dydi o ddim yn effeithio ar bawb. Mae ymchwilwyr wedi canfod ei fod yn addasiad genetig wrth i rai pobl beidio ag ymateb i'r arogl, a elwir yn *anosmia asparagws* neu i ni'r werin bobol, anallu i ogleuo pi-pi asparagws!

Wel, rydw i wedi crwydro dipyn bach, a rhaid bwrw 'mlaen. Mae fy lawnt mewn cyflwr gwael. A hithe'n dywydd mor wlyb, doedd hi'n ddim help bod contractiwr oedd yn nôl tail fy ngheffyl wedi rhwygo'r glaswellt ar y lawnt efo'i dractor. Mi fues i'n cribinio a hau hadau glaswellt ym mis Mai. Ond roedd hynny'n drychineb llwyr gan fod yr ieir wedi bwyta'r cwbwl! Felly, dwi wedi penderfynu gadael i natur gymryd ei chwrs a bydd y glaswellt yn ail-dyfu – maes o law!

Roedd bod heb lawnt yn golygu mai dim ond yn ddiweddar y ces i'r peiriant torri glaswellt allan. Ac wrth gwrs, doedd o ddim am gychwyn! Ffonio Andy, *Blue Hand Mowers*, cael ei drwsio'n sydyn, ac erbyn hyn mae'n gweithio'n werth chweil. Dwi'n siŵr bod rhai ohonoch chi'n arbenigwyr ar edrych ar ôl y lawnt, ond fel arall ydw i – dwi'n methu yn fy myw a chael fy nghyffroi gan laswellt.

Mae gen i ddarn o dir ar gyfer byd natur – mae croeso i'r chwyn dyfu ac mae'r ymylon yn edrych braidd yn ddi-siâp! Mae'r ieir a'r cŵn yn ei hoffi – mae'r amherffeithrwydd yn rhoi digonedd o gynefinoedd i fywyd gwyllt ac, i mi, mae'n rhoi syrpréis ychwanegol, wrth i dwll mawr ymddangos, fel arfer wedi ei dyllu gan gi geriatrig awyddus, sy wrth ei fodd yn eistedd yn y twll a gwylio'r byd yn mynd heibio!

Hazel

---

# Undeb y Mamau

Yn lle'r cyfarfod arferol ym mis Mai, cawsom ni'r fraint o ymweld â Hosbis Sant Cyndeyrn, cael sgwrs arweiniol a thaith dywysedig. Roedd yn ddiddorol iawn clywed faint o therapïau a thriniaethau a gynigir gan yr hosbis, a'r nifer o bobl sy'n elwa o'r cyfleusterau. Roedd yr ystafelloedd wnaethom ni ymweld â nhw wedi eu cynllunio a'u haddurno'n hyfryd, ac unwaith bydd yr ardd wedi ei chwblhau, bydd pob ystafell wely â mynediad uniongyrchol i'r ardd. Rydym ni mor ffodus o gael y cyfleuster gwych hwn ar stepen ein drws. Mis nesaf byddwn yn dychwelyd, ond y tro hwn i fwynhau te pnawn!

*Mary Steel*

# Baromedr Bryn

Tydi pethau materol ddim yn rhyw bwysig iawn i mi, i ddweud y gwir – y pethau pwysig ydi pethau na all arian eu prynu – hapusrwydd, iechyd, cyfeillgarwch – y pethau sy'n gwneud i ni gyfri ein bendithion. Ta waeth lle dwi'n mynd â hwn, meddech chi?

Mi fues i'n ddigon ffodus yn ddiweddar, diolch i fy niweddar fam, i etifeddu hen faromedr banjo oedd wedi bod ganddi hi a 'Nhad ers dwn i ddim pryd. Fi sy'n cael y fraint o'i warchod hyd y genhedlaeth nesa.




Roedd gan fy Mam ffydd mawr yn ei baromedr – cnoc i'r gwydr i weld pa ffordd roedd y bys yn symud – fyny neu lawr. Yn ddi-os, yn ystod y sgwrs mi fyddai'n sôn am y tywydd ac a oedd hi am wella neu waethygu, dibynnu pa ffordd oedd y bys yn symud. Mor syml â hynny ac yn wir doedd o ddim yn bell o'i le.

Dwn i ddim a fuoch chi yn Yr Ysgwrn 'rioed – cartref Hedd Wyn, wrth gwrs. Mi fues i'n ddigon ffodus i'w weld yn ystod cyfnod yr atgyweirio a sylwi – doedd dim posib ond sylwi – at siâp baromedr banjo yn y papur wal. Roedd hi'n amlwg bod teulu Hedd Wyn wedi cael eu siarsio i beidio â thynnu'r baromedr oddi ar y wal ar unrhyw gyfri – ac wedi papuro rownd o – 26 o weithiau, a phob haen yn dangos ffasiwn y cyfnod.

Pan beidiodd Gerald gynnau tân ar yr aelwyd, yn wir aeth Yr Ysgwrn yn damp a phan symudodd Yr Ymddiriedolaeth y baromedr i le diogel dros dro, fe lithrodd yr haenau papur oedd tua modfedd o drwch oddi ar y wal. Gwyliwch fideo Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri am ragor o hanes y papurau wal: [https://www.youtube.com/watch?v=Sgw5K6cuRn8](https://www.youtube.com/watch?v=Sgw5K6cuRn8).

Ta waeth, yn ôl at y baromedr. Does rhaid i bawb heddiw wybod pa ddiwrnod a faint o gloch mae hi am lawio a chryfder y gwynt ac o pa gyfeiriad? Yn wir, dwi yn defnyddio fy *Apple* yn aml os dwi'n trefnu un o fy nheithiau cerdded neu feicio, ddim cymaint i benderfynu a ydw i am fynd ai peidio – jest pa ddillad i fynd efo fi a pha mor wlyb dwi'n debygol o fod.

Roeddwn ni wedi awgrymu wrth y tri phlentyn acw – yn nhrefn eu hoedran – fasen nhw'n hoffi'r baromedr i gofio am Nain yn rhoi cnoc ar y gwydr. Ond fase waeth i fi fod wedi cynnig dos o ffliw iddyn nhw ddim!

Felly gan mai dymuniad fy mam mai fi oedd i fod yn geidwad i'r baromedr, dyma ei gymryd oddi ar y wal a'i handlo yn ofalus iawn. Er mawr syndod i mi, ar y cefn roedd llawysgrifen fy nhaid – '*Thomas Davies, Segrwyd Isa*'.

I gael egluro, o Segrwyd Isa ddaru fy nhaid symud i Bancer. Dwi ddim yn siŵr pryd – rywbryd tua ganol yr 1930au a hithau'n amser anodd iawn ar bob diwydiant, nid dim ond amaeth.

Pam oedd o wedi teimlo'r awydd i roi ei enw ar y cefn, dwn i ddim, ond dwi'n ddiolchgar iawn ei fod wedi gwneud achos bellach tydi o'n golygu lot mwy i mi? – a minnau wedi gwrthddweud fy hun rŵan, yndo? Rhywbeth materol ydi o ond rywsut

# Baromedr Bryn: Parhad

ella i ddim peidio meddwl am fy Nhaid yn cnocio'r gwydr cyn mynd i'w wely i weld pa ffordd roedd y bys yn symud – glaw neu hindda – ac yn gorfedd yn ei wely plu, mae'n siŵr, yn planio fory.

'Nid agorir heb ei guro' chwedl Dic Jones yn ei englyn i'r drws cefn ac felly oedd hi yng nghartre Mam – byth yn agor y drws heb ddefnyddio'r cnocar mawr. Rhyw gamu mewn wedyn a Mam yn dod i 'nghyfarfod i, gan wybod mai cydnabod oedd yna. 'Wel tyrd i mewn – rho gnoc i wydr y cloc. Be mae'r tywydd am wneud Bryn? Dyro'r tegell mlaen, mi gawn ni baned.'

Yn anffodus, mae'r cyfnod yna wedi dod i ben ond er mai rhywbeth materol ydi unrhyw faromedr, mae hwn yn sbesial – mae wedi dod â llu o atgofion efo fo, yntydi?

*Bryn Davies*


**WHEEL BUILDING UK**



**MOTORCYCLE WHEEL BUILDING SPECIALIST**

- Wheel Building
- Spoke Sets
- Aluminium/Chrome/Stainless Rims
- Vapour Blasting
- Metal Polishing
- Powder Coating

**MIKE 07455 244 480**
**mike@wheelbuildinguk.co.uk**
**www.wheelbuildinguk.co.uk**


# Llan Llanast

Yng nghyfarfod Llan Llanast mis Mai, buom yn dysgu am ddŵr, rhodd werthfawr gan Dduw. Clywsom ni am bobl sydd heb ddŵr glân a pha mor bwysig ydi peidio gwastraffu dŵr. Hefyd, pa mor bwysig ydi dŵr i blanhigion ac i holl anifeiliaid y môr, ac na ddylem ni lygru'r moroedd. Rhoesom ni negeseuon ar bwmp mawr, yn dweud pam mae dŵr yn hanfodol, a gwnaethom ni ddiferyn glaw anferth a phlannu blodau melyn Mair mewn potiau i'w cymryd adre a gofalu amdanyn nhw. Buom yn dysgu am y gylched dŵr a buom ni'n lliwio a gwneud peintiadau hudol.






Bydd ein sesiwn nesaf 9 Mehefin am 3.30pm fel arfer. Croeso i bawb! Blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi i rannu'r hwyl.

# Profiadau'r Ail Ryfel Byd yn Llandyrnog

***Detholiad o brofiadau Audrey Martin o fod yn faciwî o Lerpwl, ar fferm deuluol fechan yn Llandyrnog yn ystod yr Ail Ryfel Byd***

Roedd gan ffrindiau i'm rhieni fwthyn yng Ngogledd Cymru o'r enw Tan y Bryn, ar ffordd Bodffari, yn agos i Landyrnog. Bwthyn bychan traddodiadol – dwy stafell i lawr grisiau a dwy lofft, dim trydan na dŵr yn y tŷ, a'r toiled ym mhen draw'r ardd. Mwy na thebyg bod Mam wedi cyfarfod Mrs Lloyd, Rhiwbebyll Isaf yn ystod y cyfnod yma.

Pan ddaeth hi'n Wanwyn 1941, roedd rhaid i ni adael Tan y Bryn. Clywodd Mrs. Lloyd am hyn a gwahoddodd hi Mam a fi i fyw ati hi a Mr Lloyd yn Llangwyfan. Roedd eu mab David rhyw flwyddyn neu ddwy'n iau na fi.

Roedden ni'n dwy yn byw yn y parlwr yno a'r llofft uwchben y parlwr. Felly roedd y parlwr yn gegin, lle byw a lle bwyta. Byddai Mam yn paratoi a choginio'r rhan fwyaf o'r bwyd yma, efo dwy stof baraffîn ar yr aelwyd.

Ambell dro, byddai Mrs. Lloyd yn gadael i Mam ddefnyddio'r gegin i bobi pethau yn y grât hen ffasiwn oedd yn boeth drwy'r amser. Roedd Mrs Lloyd yn pobi'r bara i gyd mewn popty bara tu allan. Byddai pawb ar y ffarm yn hel i'r gegin – dyma ganolbwynt bywyd ar y ffarm. Dw i'n cofio chwarae gemau bwrdd fel '*snakes and ladders*' efo David ar fwrdd y gegin.

Mi es i i'r ysgol yn Llandyrnog, ond roeddwn i'n mynd i Ysgol Sul yn Eglwys Llangwyfan. Miss Behrens, cyn-athrawes, fyddai'n ein dysgu yn yr Ysgol Sul. Roedd hi'n byw efo'i chwaer mewn bwthyn ar draws y cae i'r Eglwys. Roedd ganddyn nhw fachgen o Lerpwl yno fel efaciwî. Fo roddodd hergwd i'r bedyddfaen yn Llangwyfan a'i dorri – dydw i ddim yn siŵr os mai damwain oedd hi ai peidio!!

Mae'r *White House* yn is i lawr ar yr ochr dde ar ffordd Llandyrnog. Cafodd David a fi ein dal yn dwyn 'fale o'r berllan un waith. Roedd y fale i gyd i wedi eu cuddio lawr fy nicers! Mae'n siŵr 'mod i'n edrych yn reit wirion pan ddaliodd y perchennog ni.



*Audrey, Mrs Lloyd a David*

Mi ddaeth David a fi o hyd i sigaréts yn y stabal a'u cymryd nhw i fyny i'r daflod lle roedden ni'n cael chwarae, a dechrau eu smocio fel 'pobol fawr'. Yn anffodus, mi ddaeth Mr Lloyd o hyd i ni ac mi roedd o mor flin efo ni am drio smocio ond hefyd am y gallen ni wedi rhoi'r stabal ar dân!

Efo dim ond dwy ystafell, doedd gan Mam ddim lle addas i storio'r bwyd. Felly, roedd hi'n rhoi ychydig o fwyd mewn cês o dan y gwely. Mi ddaeth 'na un lygoden fawr i wybod am hyn – roedd posib clywed ei sŵn hi o dan wely Mam. Galwyd ar Mr Lloyd, a ddaeth yn syth bin efo'i wn, a saethu'r llygoden! Cafodd Mam air o gyngor ganddo i beidio â storio bwyd o dan ei gwely o hynny allan!

Gadawsom Riwbebyll yn Hydref 1943, gan nad oedd Lerpwl wedi ei bomio am flwyddyn gyfa'. O edrych 'nôl, amser rhyfel ar y ffarm yn Rhiwbebyll Isaf oedd un o gyfnodau hapusaf fy mywyd. Mi fues yno sawl gwaith ar ôl y rhyfel nes i waith a phriodi fynd a fi 'mhellach i fyw.

***Bydd stori lawn Audrey Martin ac eraill yn cael eu cyhoeddi gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan yn 2025.***

# Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog

Nos Wener 26 Ebrill yn Neuadd y Pentref, cynhaliodd Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog gyfarfod arbennig gyda dwy sgwrs am astroffotograffeg, lle tywysodd Len Jones a Gareth Jackson ni i fyd arall am noson! Teitl y sgyrsiau oedd '*Be ydi astroffotograffeg*?'.

Astroffotograffeg ydi'r enw am dynnu lluniau/delweddau o wrthrychau wybrennol fel y sêr a'r planedau, yr haul, y lleuad a Gwrthrychau Gofod Dwfn (*DSOs – Deep Space Objects*) megis nifylau, galaethau a chlystyrau o sêr.

Roedd y sgwrs gyntaf gan Gareth yn ymwneud â sylfeini astroffotograffeg – sut y medrwch chi gychwyn ar yr hobi rhyfeddol hwn gyda dim ond ffôn camera neu *DSLR* sylfaenol, a thynnu lluniau gwych o rai o'r gwrthrychau mwyaf llachar yn yr awyr fel y lleuad. Er enghraifft, roedd llawer o luniau da yn ystod ymddangosiad yr awrorâu roeddem ni mor ffodus i'w gweld yma yng Ngogledd Cymru wedi'u tynnu gan gamera *Canon DSLR* gyda lens cit safonol (18–55mm), er bod llawer o luniau da yn medru cael eu tynnu gan ffonau symudol.

Yn ystod y sgwrs, cawsom ddiffiniad o astroffotograffeg, graddfa a phellter gwahanol wrthrychau wybrennol, a sut y medrwn ni dynnu lluniau gyda lens camera'n unig neu drwy ddefnyddio telesgop gyda chamera cysylltiedig.

Mae rhai gwrthrychau yn yr wybren yn fawr iawn ond yn anodd eu gweld. Er enghraifft, mae galacsi *Andromeda* mor llydan â 6 lleuad lawn, ond yn aneglur, a rhaid defnyddio amser-datguddio hir er mwyn cael llun o'n galacsi agosaf. Rhaid i ni hefyd ddewis y chwyddiad cywir i ni fedru ffitio'r cwbl i mewn i un delwedd.

Ar ôl cael arddangosiad byr o'r offer priodol, gwelsom ni rai delweddau y gellir eu cynhyrchu heb fynd i ormod o gôst.

Ar ôl toriad a lluniaeth ysgafn, cyflwynodd Len fanylion a delweddau yn dilyn ei ymweliad diweddar ag *Arsyllfa Calar Alto* yn Almeria, De



*Galacsi Andromeda*

Sbaen, lle lleolir telesgop tir mawr mwyaf Ewrop – 2,200m o uchder ar fynydd yn nwyrain y *Sierra Nevada*. Mae'n delesgop arbennig sy'n chwilio am ecsoblanedau (*planedau sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gysawd yr Haul*). Daeth y noson i ben drwy edrych ar nifer eang o ddelweddau Gwrthrychau Dyfnder Gofod, yn cynnwys nifylau a galaethau lliwgar sydd wedi eu lleoli miliynau ar filiynau o Flynyddoedd Goleuni o'r ddaear – delweddau a dynnwyd drwy delesgop Len mewn lleoliadau Awyr Dywyll wrth iddo deithio o amgylch Ewrop.

Roedden nhw'n lluniau trawiadol dros ben o ddyfnder gofod sydd o'n cwmpas, ac fe dywysodd y ddau siaradwr ni ar daith olau ffantastig drwy'r bydysawd. Roedd eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad i'r 'hobi' hwn a'u parodrwydd i rannu gwybodaeth yn amlwg yn eu cyflwyniadau. Mae'n syfrdanol faint o ymdrech sydd ei angen i gynhyrchu'r delweddau a ddangoswyd yn y sgwrs, gyda'r ddau siaradwr yn dangos i ni eu taith ar draws y bydysawd o Landyrnog a thramor.

Rydym ni'r edrych ymlaen yn eiddgar am fwy o sgyrsiau. Pam nad ymunwch â ni? Rydym ni'n cyfarfod ar Nos Fawrth ola'r mis yn y Golden Lion, Llangynhafal a'r Dydd Mawrth cyntaf yn y Ceffyl Gwyn, Hendrerwydd. Mae gennym ni nosweithiau arsylwi, sgyrsiau, cyfnewid llyfrau, ond yn bennaf mae'n gyfle i siarad am bopeth astronomegol.


**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Tuesday Club




Cawsom sgwrs gan Deri Cottle o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yng nghyfarfod mis Mai ynglŷn â diogelu'n hunain rhag tân yn ein cartref. Roedd y cynghorion yn rhai gwerthfawr iawn a byddwn yn siŵr o'u gweithredu.

Bu Margaret ein trysorydd yn hel yr arian a'r archebion bwyd ar gyfer ein cinio ganol haf y mis nesaf yn y Drovers Arms, Rhewl ac rydym yn edrych ymlaen at hwnnw.

Anfonwyd ein cofion at Chris Palin nad yw'n hwylus iawn ar hyn o bryd. Tynnwyd y raffl ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ar ôl y cinio ddydd Mercher, 19 Gorffennaf. Bydd croeso cynnes yn disgwyl aelodau newydd.

# DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

- Gosodwch larymau mwg ar bob lefel yn eich tŷ. Cadwch nhw'n lân rhag llwch, a'u profi unwaith yr wythnos. I gael Archwiliad Diogel ac Iach yn eich cartref, ffoniwch **0800 169 1234.**
- Gwnewch gynllun dianc fel bod pawb yn gwybod sut i ddianc petai yna dân. Cadwch y ffyrdd allan o'ch cartref yn glir a gofalwch fod pawb yn eich cartref yn gallu dod o hyd i oriadau'r drysau a'r ffenestri yn hawdd.
- Byddwch yn ofalus iawn yn y gegin – mae dros hanner y tanau mewn cartrefi yn digwydd yn y gegin. Peidiwch byth â gadael plant ifanc ar eu pennau eu hunain yn y gegin. Byddwch yn hynod ofalus wrth goginio gydag olew poeth.
- Peidiwch byth â gadael canhwyllau wedi eu cynnau mewn ystafelloedd gwag neu mewn ystafelloedd lle mae plant ar eu pennau eu hunain. Gofalwch fod canhwyllau mewn llestr addas ar arwyneb sydd ddim yn llosgi a'u bod yn bell oddi wrth unrhyw ddeunydd a allai losgi.
- Peidiwch byth ag ysmygu yn y gwely. Byddwch yn ofalus os ydych chi'n ysmygu ac yn defnyddio eliau lliniaru – gall yr rhain amsugno i mewn i ddillad a dillad gwely gan eu gadael yn fflamadwy.
- Caewch eich drysau bob nos. Os ydych eisiau gadael drws ystafell wely plentyn yn agored, caewch ddrysau'r ystafell fyw a'r gegin.
- Peidiwch â gorlwytho socedi trydan. Mae angen eu plwg eu hunain ar bethau fel peiriannau golchi dillad gan eu bod yn bwerus iawn.
- Cadwch fatshys a thanwyr ymhell o gyrraedd ac o olwg plant.
- Byddwch yn ofalus iawn pan fyddwch wedi blino neu wedi bod yn yfed.
- Peidiwch â rhoi'r teledu neu gyfarpar trydanol arall yn y modd segur (*standby*). Diffoddwch nhw'n llwyr bob amser, a thynnwch y plwg allan pan dydych chi ddim yn eu defnyddio. Peidiwch â gadael peiriannau golchi, peiriannau sychu na pheiriannau golchi llestri ar fynd dros nos.
- Peidiwch â rhoi gwresogyddion yn agos at ddillad, llenni a dodrefn a.a. Peidiwch byth â rhoi dillad i'w sychu arnyn nhw. Gofalwch eu bod wedi'u diffodd a'r plwg allan cyn i chi fynd i'ch gwely.

**OS BYDD TAN, EWCH ALLAN, ARHOSWCH ALLAN, A FFONIWCH 999**




Diolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi tuag at The DPJ Foundation ac Ambiwlans Awyr Cymru. Codwyd y swm ardderchog o £450, a fydd yn mynd tuag y cyfanswm a godir gan Daith Dractorau Dyffryn Clwyd ddydd Sul, 2 Mehefin. Os hoffech chi gyfrannu at yr elusennau hyn, ewch i https://www.justgiving.com/team/voctr-2024.

# Cynghrair Pêl-droed yr Haf

Y gemau min nos yn dechrau am 7.15pm

Nos Lun 2 Mehefin: Nantglyn v Llandyrnog

Nos Iau 6 Mehefin: Llandyrnog v Llanrhaeadr

Dydd Sadwrn 8 Mehefin: Llandyrnog v Ysceifiog, dechrau am 12pm

Nos Lun 10 Mehefin: Ysceifiog v Llandyrnog

Nos Iau 13 Mehefin: Llandyrnog v Henllan

Nos Lun 17 Mehefin: Rhewl v Llandyrnog

Nos Iau 20 Mehefin: Trefnant v Llandyrnog

Nos Lun 24 Mehefin: Llandyrnog v Llanfair

Nos Iau 27 Mehefin: Trefnant v Llandyrnog

Cefnogwch eich tîm lleol!

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

J & G
TYRE SERVICES
Car - Truck - Farm Tyre Specialists
Batteries & Exhausts
Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ
01745 817676
07775 717602



DBP
Denbigh
Building
Plastics
SUPPLIERS & INSTALLERS
U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.
Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
Open Mon—Fri 7.30am—5 pm
Sat 9 am—12 pm

# Dod i adnabod ... Heather Powell

***Fis yma, dowch i gyfarfod merch brysur iawn sy'n byw ei cherddoriaeth bob dydd.***

***Beth ydi'ch atgofion cynharaf?***
Fy atgofion cyntaf ydi'r rhai efo fy nheulu ym Mwcle lle roeddwn i'n byw gyda fy rhieni a'm brawd mawr Neil. Dwi'n cofio mynd ar wyliau i Swydd Efrog efo'r teulu, a chofio bod yn perthyn i'r Brownies a mynd am wersi bale (a finne'n anobeithiol). Dwi'n cofio'r wefr o gael ymuno â'r band pres lleol yn 7oed – Band Pres Brenhinol Bwcle. A dwi'n cofio fy mrawd yn cael Ciwb Rubik un 'Dolig – roedd o bob amser yn gallu ei wneud yn gynt na fi! Felly, yn fy nhempar, mi dynnes i bob un sticer i ffwrdd – a dydi o ddim wedi maddau i mi eto!

***I ble'r aethoch chi i'r ysgol / addysg bellach?***
Mi es i Ygol Gynradd Southdown, Bwcle, yna i Ysgol Uwchradd Argoed ym Mynydd Isa ac ymlaen i Ysgol Alun ar gyfer y chweched dosbarth. Ymlaen i addysg bellach yng Ngholeg Cerdd y Royal Northern, Manceinion lle'r astudiais i ar gyfer gradd mewn perfformio cerddorol. Fy mhrif offeryn oedd y Bariton, a'r ail oedd y Trombôn.

***Sut ddaeth y diddordeb mewn cerddoriaeth?***
Mi ges fy ysbrydoli wrth wylio band pres yn chwarae yn f'ysgol gynradd pan o'n i'n 7oed. Roedd Paula, ffrind agos, a minne'n crefu ar ein rhieni i gael mynd i rihyrsal y band. Ymunais â'r band cynradd a chael hen offeryn, ond mi ddois i chwarae'n go dda er hynny. Erbyn cyrraedd 12 oed, roeddwn i wedi pasio'r 8 arholiad *ABRSM*, a ches ymuno â bandiau uwch. Mi fues i'n brif offerynnwr Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Yn fy nhro, mi fues i'n chwarae i sawl band adnabyddus, yn cynnwys Foden's a Black Dyke.

Ar ôl gwneud fy ngradd, es i fyw i'r Almaen am flwyddyn a chwarae mewn band pres militaraidd – profiad diddorol dros ben!

***Sut ddaru chi ddewis eich gyrfa? Dechrau a datblygiad Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych (CCSDd)***




*Heather, ar y dde, gyda'i chyd-aelodau staff yng Ngwobrau Addysg Cerddoriaeth a Drama 2023*

Ar ôl graddio, symudais i yn ôl i Ogledd Cymru fel athrawes gerdd peripatetig a dysgu mewn llawer o ysgolion am sawl blwyddyn hapus, nes 2014. Dyna pryd benderfynodd Cyngor Sir Ddinbych na allen nhw fforddio athrawon cylchynol fel ni o hynny 'mlaen. Penderfynais eu herio – er mwyn gallu dal i gynnig profiadau cerddorol i blant y sir. Cychwynnais gwmni fy hun er lles cerddorol plant yr ardal, gan ddechrau yn fy lolfa. Erbyn hyn, mae'r cnewyllyn o syniad wedi tyfu'n un o'r prif ddarpariaethau cerdd yng Nghymru – mae gennym 70 tiwtor a thua 5000 o blant yn defnyddio ein gwasanaethau bob wythnos. Galwodd yr Athro Paul Mealor, cyfarwyddwr artistig newydd Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru CCSD yn '*drysor cenedlaethol*'.

Y datblygiad diweddaraf yn *CCSDd* ydi ein bod newydd brynu swyddfa newydd, diolch i gefnogaeth *Cronfa Ffyniant Bro*. Dwi hefyd ar fwrdd ymgynghorol Addysg Gerddorol yng Nghymru, yn gadeirydd AIMS y Deyrnas Unedig (Gwasanaethau Cerdd Annibynnol y DU), ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd

# Dod i adnabod ... parhad

Gwasanaethau Cerdd Cymru. Dwi'n aelod o Fwrdd Busnes Cymdeithasol Cymru a thu hwnt, ac wedi helpu sefydlu nifer o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

***Be' sy' nesaf ar gyfer CCSDd?***
Y peth nesaf ar y gweill i *CCSDd* ydi taith i'r Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod ddiwedd Mai, efo 100 o ddisgyblion o Sir Ddinbych. Mi fyddan nhw'n arwain gorymdaith drwy'r Maes, er mwyn dathlu Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru efo'r Prif Weinidog. Yna, ar ôl y Steddfod, bydd tair ysgol haf yn Wrecsam a Sir Ddinbych cyn dechrau ar ein taith 5 wythnos gyda'n band *Make Some Noise*. Byddwn yn cynnig dros 200 o berfformiadau byw yn ystod mis Medi a mis Hydref mewn ysgolion a sefydliadau addysg!

***Be ydi'r diddordebau?***
Yn f'amser sbâr, dwi'n gyfarwyddwr gym *CrossFit* ac yn ymarfer tua 4 neu 5 gwaith yr wythnos efo *FarmFit* ac efo *Commando XFit Cymru,* Llandrillo yn Rhos.
Dwi'n gwneud llawer o godi pwysau a bocsio ac yn chwarae pêl-droed – mi fues i'n chwarae i dîm Merched Llandyrnog y llynedd yng Nghynghrair yr Haf. Dwi wrth fy modd yn cerdded a chadw'n ffit – dwi ar fin gadael am gamp yn Tenerîff am wythnos i godi pwysau a cherdded! Mae gen i 2 gi sy'n ein cadw'n brysur – Holly, ci defaid a Bob y Ci Smwt.

***Be' sy'n eich gwylltio'n gacwn?***
Ar hyn o bryd – gwleidyddiaeth!

***O beth ydech chi fwyaf balch?***
Fy nhri plentyn hyfryd – Lloyd, y drymiwr, sy'n aelod o Fand Ieuenctid Biwmares, ac wedi dod yn 3ydd ym Mhencampwriaeth Ieuenctid Ewrop yn Lithuania. Mason, chwaraewr sacsoffon sy'n aelod o Fand Cymraeg Ambrose, a Jacob, sy'n byw a gweithio'n Llundain, ond yn dod i fyny'n amal i'n gweld. Ac hefyd wrth gwrs y cwbl ryden ni wedi ei gyflawni efo CCSD ar hyd y blynyddoedd.

*Diolch Heather am eich amser!*

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r tywydd braf a gwneud y gorau o ddysgu yn yr awyr agored.



Mae'r Babanod wedi bod yn dysgu sut i fesur hylifau mewn mililitrau ac yn edrych ymlaen i ymweld â chastell Dinbych yr wythnos hon. Mae'r Dosbarth Meithrin wedi bod ar helfa lythrennau a rhifau o amgylch iard yr ysgol.



Mae'r Dosbarth Iau wedi bod yn dysgu am stori Blodeuwedd a threfnu blodau i'w chynrychioli, ac wedi mwynhau gweithdy drwm samba gyda Cherdd Cydweithrdol Sir Ddinbych.

Mae rihyrsals wedi cychwyn ar gyfer ein drama, *A funny thing happened on the way to Camelot*. Bydd y ddrama'n cael ei pherfformio yn Neuadd y Pentre am 5.30pm Ddydd Mawrth 9 Gorffennaf, gyda mynediad am ddim, a byddem wrth ein bodd pe bai'r gymuned yn ymuno â ni.

# Gwobr lenyddol

***Llongyfarchiadau*** i Catherine Howarth ar ennill Tlws Rhyddiaith yn Eisteddfod y Dysgwyr, Gogledd Ddwyrain Cymru gyda'r erthygl hon.

***MARGARET***

Trodd Margaret yr allwedd yn y drws a cherdded yn araf yn ôl i mewn i'w fflat bach. Wel dyma ni! Hon fyddai ei chell carchar am y 12 wythnos nesaf neu fwy. Dylai pawb dros 70 oed hunan-ynysu roedd Boris wedi dweud. Sut bynnag oedd hi'n mynd i reoli; roedd hi'n berson cymdeithasol iawn! Dim ganu yn yr un o'i phedwar côr. Dim mwy yn gweithio yn y siop elusen ddau fore'r wythnos. Dim mwy o eglwys, dim mwy o gwrdd â ffrindiau am banad a chrwydro o amgylch y siopau. Ac eleni bydd hi'n naw deg oed! Sut bynnag gallai dathlu o dan amgylchiadau fel hyn! Ar ôl rhai diwrnodau o gwylio teledu a gweu, roedd 'na cnoc ar y drws. Cyn hyn, roedd ei drws hi yn wastad ar agor a roedd hi'n gweiddi 'dewch i mewn', ond y tro yma aeth hi i ateb y drws. Yn sefyll yn bell o'r drws oedd ei chymydog Theresa. "Dw i'n mynd i Tesco, wyt ti isio unrhyw beth?" meddai hi. Roedd Margaret yn diolchgar iawn am y cynnig, ond hefyd i weld person arall, wyneb i wyneb; eisoes roedd hyn yn teimlo mor rhyfedd ond mor aruthrol!


Rhai diwrnodau wedyn meddyliodd Margaret fi fydd yr un i fynd i Tesco ar gyfer eraill – doedd oed ddim yn rhwystr iddi hi ac mae pawb angen bwyta! Aeth hi o gwmpas ei chymdogion i weld beth maen nhw angen. Roedd pawb angen sgwrs mwy na dim byd arall, ac os oedden nhw'n cadw dau fetr ar wahân a ddim yn mynd i mewn i fflatiau ei gilydd, doedden nhw ddim yn torri y rheolau. Roedd cael siarad gyda phobl yn tro ar fyd ac yn helpu pawb i ymdopi efo'r cyfnod rhyfedd yma. Daeth dyddiau cynhesach y gwanwyn yn gynnar fel petai'r byd yn gwybod bod ei angen yn fwy nag erioed eleni. Gallai'r preswylwyr eistedd tu allan yn yr ardd gymunedol yn mwynhau cwmni ei gilydd ac nid oedden nhw erioed wedi gwerthfawrogi ei gilydd mwy. Roedd gan y fflats rheolwr felly gadawyd y trigolion i drefnu eu hunain a dyna beth wnaethon nhw efo hwrdd o frwdfrydedd. Crëwyd creigwaith newydd, prynwyd mwy o seddi a chynlluniwyd barbeciws. Daeth y 'clap i ofalwyr' bob nos Iau yn ddigwyddiad cymdeithasol. Ar ôl mynd allan ar y stryd a churo eu sosbanau, doedd neb isio mynd yn ôl i'w fflatiau. Wnaethon nhw ddechrau chwarae bingo; prynwyd bwrdd dartiau a cychwynwyd cystadleuaeth. Ysgrifennodd Steve gwis bob ychydig wythnosau. Roedd Margaret ynghyd â'r trigolion eraill yn edrych ymlaen at y nosweithiau hyn. Daethan nhw hefyd i adnabod trigolion tawelach eraill nad oeddent erioed wedi ymuno â digwyddiadau o'r blaen. Roedden nhw'n dod yn gymuned mor glos, gan ofalu am ei gilydd. Wrth i'r gaeaf ddechrau gafael a'r firws ddod yn ôl, roedd 90fed Margaret yn agosáu.

Sylweddololodd hi na fydd hi ddim yn dathlu a gyda'i merch dros y ffin fydd hi ddim yn gallu ymweld chwaith. Wedyn wnaeth Theresa alw. Roedd hi wedi cael syniad gwych. Felly ar ei diwrnod arbennig yn gwisgo coron a sash roedden nhw wedi gwneud roedd Margaret yn eistedd ar gadair arbennig ar ddiwedd y coridor hir. Eisteddodd y cymydogion eraill wrth eu drysau a dosbarthodd Theresa de prynhawn iddyn nhw. Myfyriodd Margaret ar y gymuned wych yr oedd hi'n byw ynddi a sut roedden nhw wedi troi'r adegau gwaethaf yn gyfnod mor gofiadwy.



(*Yn seiliedig ar stori wir am fy mam yn y cyfnod clo – Catherine Howarth*)

# Neges gan ein hoffeiriad



Llawenydd i lawer ohonom oedd cael rhyfeddu at Wawl y Gogledd, yr *Aurora Borealis*, nos Wener, Mai 10 – digwyddiad prin iawn ers y flwyddyn 2003.

Mi fues i'n lwcus i'w weld, a hynny o 'nghadair gyfforddus yng ngardd y Ficerdy. Mae'r awyr mor odidog ar noson glir yn yr ardal hon o Ogledd Cymru – dim llygredd golau o gwbl! Roedd hi'n gwbwl ysbrydoledig i syllu ar arlliw o binc a gwyrdd a gwyn hyfryd ar y noson honno – pleser pur!

Cafwyd eglurhad gwych gan y BBC am yr arddangosfa liwiau yma: "Achosir Gwawl y Gogledd gan atomau â gwefrau trydanol – 'gronynnau wedi'u gwefru'. Daw'r golau lliwgar wrth i'r 'gronynnau' saethu allan o'r haul mewn storm geomagnetig eithafol a'u chwythu atom ni, a tharo nwyon yn atmosffer y Ddaear. Bydd y gwahanol nwyon, gyda'u hegni newydd, yn taflu'r gwahanol liwiau i'r awyr."

Mae rhywbeth mor rhyfeddol yn ein gwneud ni'n chwilfrydig, ac, os oes gennych chi ffôn clyfar, mae 'na *App* o'r enw *Night Sky*. Dim ond i chi anelu'r ffôn at yr awyr, fe gewch chi eglurhad o be'n union sydd yno, e.e. cytser a'u dechreuadau. Gallwch chi hyd yn oed glosio'n nes at orsafoedd yn y gofod.

Mae 'na gosmos wedi ei lunio ar ddelw Duw ym mhob un person, medde rhywun, rywbryd – rhan fach o'r bydysawd ynon ni i gyd, bob un. Os feddyliwn am hyn yn ddwys, falle yr awn ni at bobol yn dangos y parch dyledus i bob un.

Yng nghalendr yr Eglwys eleni, daeth Gwawl y Gogledd ddiwrnod wedi Dydd Iau Dyrchafael. Y diwrnod pwysica' wedyn yn y calendr oedd Mai 19, y Pentecost/Sulgwyn pan dywalltodd Duw yr Ysbryd Glân ar ei ddisgyblion ofnus, hiraethus a blinedig. Mae llyfr yr Actau'n llawn o gofnodion o'r pethau anhygoel wnaeth y Cristnogion cyntaf yn nannedd rhwystrau o bob math. Roedd y Sulgwyn wedi rhoi'r egni a'r penderfyniad iddynt fynd allan i'r byd yn llawn o'r Ysbryd Glân ac yn llawn hyder.

Mae eisiau adnabod goleuadau awyr y nos yn beth digon naturiol oherwydd y dirgelwch mawr. Dwi'n eich gwahodd chi i ystyried rhyfeddodau ffydd yn Iesu. Mae'r holi hwn yn eich ysbrydoli i wybod mwy, ac mae canfyddiadau trawiadol fel Gwawl y Gogledd, yn fyw yn ein bywyd mewnol ni. Mae'r cosmos o'n mewn ni yn dod yn fyw ac mae ffydd yn Iesu yn goleuo'r holl leoedd tywyll yn ein bywydau ac yn cynnig eu llenwi â lliwiau godidog. Pob bendith i bawb wrth i ni deithio drwy fywyd ym misoedd yr haf 'ma.

*Y Parch. Martin Pritchard,*
Ardal Genhadu Dinbych




# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Mai:

- Kinmel Arms – dal i aros am gytundeb unochrog cyn gallu rhyddhau tystysgrif cynllunio.
- Oherwydd cyfyngiadau ariannol, roedd hi'n siomedig clywed bod CSDd wedi stopio defnyddio contractiwr lleol efo JCB i glirio'r ffyrdd a ffosydd, er bod y gweithiwr yn lleol ac yn meddu ar wybodaeth eang o rwydweithiau'r dreiniau a'r ffosydd. Y cyngor cymuned i gysylltu â'r Deilydd Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth i fynegi ein siom gyda'r penderfyniad hwn, a hynny heb gysylltu gyda'r rheini oedd yn cael eu heffeithio fwyaf, sef yr ardaloedd gwledig.
- Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais am wyneb siop newydd na newidiadau mewnol i'r Siop, os bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod yr holl arwyddion yn ddwyieithog.
- Diolchwyd i'r Cynghorydd Griffith am ei gwasanaeth hirfaith fel Cadeirydd, y Cynghorydd Butler fydd y Cadeirydd am y 12 mis nesa, gyda'r Cynghorydd Borthwick yn Is-gadeirydd.
- Gadawyd i GSDd i wybod ei bod hi'n ymddangos bod canghennau marw a pheryglus yn hongian o'r goeden gastan gyferbyn â'r Ceffyl Gwyn, a mynegwyd pryderon am ddiogelwch cerddwyr. Mae'r goeden yn un o'r Tri Brenin hanesyddol ar stad Pentre Mawr.
- Gadawyd i GSDd wybod bod gwteri wedi'u blocio yn Nheras Cinmel a Maes y Wern – gobeithio y cant eu gwacáu a'u chwistrellu â dŵr.
- Roedd hi'n siomedig gweld bod rhychau peryglus rhwng Rhiwbebyll a Gwynfa heb eu llenwi eto, a'r unig rybudd i ddefnyddwyr ffordd y gallai trychineb ddigwydd ydi cyfres o gonau yn y dŵr oedd yn llenwi'r rhychau.
- Roedd adroddiadau o gyfarfod *AONB* a grŵp cysylltiol Highfield Park. O'r 67 lle posibl oedd ar gael, roedd 66 wedi'i cymryd, nifer fechan o swyddi gwag a doedd dim staff asiantaeth.
- Roedd y Cynghorydd Parry wedi cyfarfod Mr Shuker yn yr Ystafelloedd Coco er mwyn cael awgrymiadau ar sut i dderbyn arian grant tuag at wella'r gwresogi a'r inswleiddio.
- Gwaith plannu wedi cychwyn ar y gylchfan a bydd wedi'i gwblhau erbyn 1 Mehefin – os bydd y tywydd yn caniatáu.
- Wicksteed wedi rhoi gwasanaeth i'r meri-go-rownd yng Nghae Nant.
- Roedd aelodau cyngor yn drist o glywed am farwolaeth annhymig Bryan Salter fu yn Bostfeistr am nifer o flynyddoedd, ac rydym ni i gyd yn meddwl am Jenny a Stuart yn ystod y dyddiau trist yma.
- Bydd ffordd Tŷ Coch/Plas Onn ar gau rhwng 3ydd a 26ain Mehefin i hwyluso gwaith draenio.
- Bydd ffordd Tŷ Coch/Plas Onn ar gau rhwng 3ydd a 26ain Mehefin i hwyluso gwaith draenio.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*